



Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

11 January 2018

9:00 am to 1:00 pm

Optic, Llanelwy

Yn bresennol: Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Catrin Roberts, Cyng Elen Heaton, Cyng Christine Jones, Cyng Dilwyn Morgan, Cyng John Pritchard, Cyng Alun Roberts, Cyng Liz Roberts, Dylan Owen (yn bresennol tan 11:10 am), Estelle Hitchon, Fôn Roberts (yn bresennol tan 10:20 am), Dr Nick Lyons, Iwan Davies, Jenny Williams, Dr Lowri Brown, Lucy Reid, Nicola Stubbins, Neil Ayling, Meinir Williams-Jones, Ricki Owen, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Siobhan Edwards, Teresa Owen (yn bresennol tan 10:30 am).names here (use tab key to indent new lines or paragraphs)

Ymddiheuriadau: Ann Woods, Dave Hughes, Ffion Johnstone, Gill Harris, Trudy Ellis, Sam Parry

Hefyd yn bresennol: Duncan Mackenzie, Uwch Archwilydd, Archwilio Cymru) – yn arsylwi

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd yn ffurfiol:

Libby Ryan-Davies, Cyfarwyddwr Cymunedol Iechyd Integredig BIPBC, Canolog;

Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol BIPBC (Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro o 16.11.2022);

David Coyle, Cyfarwyddwr Cymunedol Iechyd Integredig Dros Dro BIPBC, Dwyrain;

Siobhan Edwards, Heddlu Gogledd Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd yn ffurfiol i:

Jo Whitehead, Iwan Davies a Helen Corcoran am eu cyfraniad arwyddocaol i'r Bwrdd a dymunodd yn dda iddynt yn y dyfodol.

Roedd Duncan Mackenzie (Archwilio Cymru) yn bresennol heddiw fel rhan o Archwiliad Gofal heb ei Drefnu.

2 Adroddiad Llais ac Ymgysylltiad

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan EY ar y negeseuon allweddol gan y Grŵp Tasg a Gorffen Llais ac Ymgysylltiad a gododd fel un o'r pum ffrwd gwaith o Ailgydbwyso Gofal a Chymorth LIC.

Cylch gwaith y grŵp hwn oedd ystyried rôl y defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr di-dâl, sefydliadau'r trydydd sector a chynrychiolwyr darparwyr gofal sy'n eistedd fel aelodau ar y Byrddau BPRh. Hefyd gofynnwyd i'r grŵp hwn ddatblygu Siarter a chynnyrch eraill er mwyn cynorthwyo BPRhau i gefnogi'r aelodau uchod.

Diolchodd EY am y cyfle i grynhoi argymhellion y Siarter ac amlygodd rhaid o negeseuon allweddol o'r Siarter:

- mae'r Siarter yn nodi ymrwymïadau allweddol ar gyfer y BPRh o ran ei gyfranogiad ystyrion ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth, Gofalwyr a chynrychiolwyr y Trydydd Sector;
- Bod holl aelodau'r BPRh yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal mewn trafodaethau a phenderfyniadau a wneir gan y bwrdd;
- Darperir cymorth/hyfforddiant, yn ôl y gofyn, i unrhyw aelod o'r bwrdd;
- Darparu mentora ar gyfer aelodau newydd - gan gadw mewn cysylltiad rhwng cyfarfod a threfnu cymorth bugeiliol;
- Sicrhau y cynhelir trafodaethau mewn modd sy'n osgoi jargon fel bod gan bawb y pŵer i ddeall beth sy'n digwydd.

Roedd EY yn falch o adrodd fod BPRhGC eisoes yn gweithio i rai o safonau'r Siarter, a thrwy gydweithio gyda chefnogaeth y tîm cydweithredu, mae gan BPRhGC y gallu i roi mecanweithiau cyfranogi mewn lle ar draws holl waith. Bydd derbyn y Siarter yn galluogi canlyniad cadarnhaol ar gyfer aelodau'r BPRh, gan ymdrechgu i sicrhau fod pob aelod yn cael eu trin yn deg a chyfartal, bod pob llais yn cael ei glywed, beth bynnag eu cefndir a gallu.

- Y camau nesaf ar gyfer BPRhGC:
- Mabwysiadu'r Siarter
- Datblygu agweddau o'r Siarter ymhellach
- Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen yng Ngogledd Cymru i weithredu'r gofynion gan ddefnyddio'r pecyn gwaith a ddarperir
- Creu'r amgylchedd iawn ar gyfer holl Aelodau
- Parhau gyda gwaith rhagorol sydd eisoes yn digwydd yma

Cydnabu aelodau BPRhGC y darn o waith arwyddocaol hwn, ac roeddent yn gwbl gefnogol o'r holl gamau gweithredu uchod. Cytunwyd y byddai Grŵp Tasg a Gorffen Gogledd Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd i BPRhGC yn y dyfodol.

Cam Gweithredu

- Enwebiadau ar gyfer y Grŵp Tasg a Gorffen - RW

3 Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad

Derbyniodd y bwrdd gyflwyniad gan CR ar Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Mae Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn nodi digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad gofal wedi'i reoleiddio yng Ngogledd Cymru ar gyfer plant ac oedolion gan gynnwys cartrefi gofal, gofal cartref, maethu a mabwysiadu, gan ddarparu sail dystiolaeth i gefnogi sefydliadau ar draws y rhanbarth gyda chynllunio a gweithio mewn partneriaeth.

Yn dilyn cyflwyniad ac adborth yng nghyfarfod BPRHGC ym Mehefin, cadarnhaodd CR fod yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad wedi ei gymeradwyo gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

Diolchodd CR i'r holl bartneriaid am eu hamser ac ymrwymiad i'r adroddiad.

Cydnabu aelodau BPRhGC y gwaith a gwblhawyd gan y staff rhanbarthol, darn arwyddocaol o waith a dogfen werthfawr yn dangos gweithgarwch ar draws y rhanbarth.

Dywedodd CR y bydd y camau gweithredu dilynol o Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Cynllun Ardal Rhanbarthol, ac mae telerau ac amodau materion y gweithlu ar gyfer staff yn un o'r prif faterion sy'n cael ei ystyried.

Gan fod Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad eisoes wedi cael ei gymeradwyo gan Chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a BIPBC, roedd BPRhGC yn gytûn y dylid cymeradwyo'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad.

4 Adroddiad Chwarter 2 Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol

Darparodd JW, Cyfarwyddwr Arweiniol Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol, ddiweddariad cryno ar adroddiad Chwarter 2 Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol.

Mae'r Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol yn dîm bychan sy'n cyflawni darnau arwyddocaol o waith ar ran y tîm rhanbarthol a phartneriaid ehangach. Cerrig filltir allweddol i'w hadrodd:

- Cwblhau Adroddiad Blynyddol ar gyfer 21/22;
- Rhwydweithio ymgysylltu, i gynnig cyfle i bawb ddefnyddio'r Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol i'w llawn botensial - cyflawni ymchwil / gweithgarwch llenyddiaeth ac ati;
- Gweithdy wedi'i drefnu er mwyn cytuno ar strwythur llywodraethu newydd;
- Cytuno ar ymateb i'r argymhellion mapio ymchwil, arloesi a gwella rhanbarthol;
- Cynhyrchu strategaeth arloesi a chynllun gwerthuso Cronfa Integreiddio Rhanbarthol;

- Cynhyrchu cynllun datblygu data a chydlynu asesiad o anghenion ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru;
- Cefnogi is-grwpiau BPRh h.y. is-grŵp Plant a Byrddau Gwasanaethau Integredig Ardal (AISB);
- Cynhyrchu diweddariadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Gogledd Cymru wrth i wybodaeth gael ei ryddhau a chynhyrchu canllawiau hawdd eu deall ar gyfer partneriaid.

Mae gwaith ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yn cynnwys parhau i ganolbwyntio ar ddata a gwybodaeth, cynnig gwerthusiad, ymchwil a hyrwyddo holl waith ar draws partneriaid.

Roedd y BPRh yn gytûn i nodi Adroddiad Chwarter 2 Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol.

5 Datblygiad Clwstwr Carlam

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad gan JF ar Ddatblygiad Clwstwr Carlam.

Darparodd JF gefndir i Ddatblygiad Clwstwr Carlam, a lansiwyd yn Ebrill 2022 er mwyn sicrhau gweithrediad mwy sydyn o Ofal Sylfaenol Moddol ar gyfer Cymru a mynd i'r afael â rhwystrau system ymddangosiadol. Mae'n cynnwys cyflwyniad o Gydweithio Proffesiynol a Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan er mwyn cryfhau ymgysylltiad clinigol, a chynyddu dylanwad y gymuned/clwstwr ar benderfyniadau BPRh.

Yn y bôn, mae Datblygiad Clwstwr Carlam yn ymwneud â llinell welediad clir o wasanaethau iechyd a gofal rheng flaen lleol, symud adnoddau o aciwt i'r gymuned, i'r BPRh o ran deall anghenion y boblogaeth leol a throsi gwybodaeth o'r fath i flaenoriaethau strategol ar lefel BPRh / Sir a Chlwstwr.

Rôl y BPRh yw rhoi trosolwg o gyllid a gweithgarwch cynllunio a chomisiynu'r Grwpiau Cynllunio Pan Glwster (PCPG), a rheoli llif gwybodaeth rhwng y Clystyrau, Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Derbyniwyd gohebiaeth LIC ym Mai 2022, a oedd yn nodi 30 o gerrig milltir i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn drosiannol, er mwyn darparu sicrwydd o wneud cynnydd gyda'r gwaith. Gwnaethpwyd cynnydd da, gyda gwaith sylweddol ei angen dros y 12 mis nesaf er mwyn sefydlu Datblygu Clwstwr Carlam o fewn cynllunio prif ffrwd.

Mae ffin ddaearyddol ar draws Gogledd Cymru i lywio datblygiadau'r Grwpiau Cynllunio Pan Glwstwr (GCPG), wedi cael eu cadarnhau, fel a ganlyn:

- Ynys Môn a Gwynedd - penderfynwyd symud i ffwrdd o Byrddau Gwasanaethau integredig Ardal (BGIA) a sefydlu GCPG Ynys Môn a GCPG Gwynedd, gyda llywodraethu BGIA blaenorol ac adrodd Cronfa Buddsoddi Refeniw (RIF) yn trosglwyddo i'r Grwpiau Cynllunio Pan Glwstwr.

- Wrecsam a Sir y Fflint - penderfynodd yr aelodau barhau â'r cyfarfod BGIA ar y cyd a defnyddio'r mecanwaith i drosglwyddo i'r BGIA / GCPG ac adrodd CBR i'r BGIA / Grwpiau Cynllunio Pan Glwstwr.
- Conwy a Sir Ddinbych - llwybr llywodraethu drwy'r BGIA presennol ar y cyd, gyda GCPG Sir Ddinbych a GCPG Conwy yn adrodd i'r BGIA. Y CBR yn adrodd i'r Grwpiau Cynllunio Pan Glwstwr.

Roedd trafodaeth aelodau BPRhGC wedi amlygu'r canlynol:

Gwnaed cais ar gyfer enghreifftiau ymarferol o'r hyn ellir ei gyflawni drwy'r Grwpiau Cynllunio Pan Glwstwr i'w ddarparu fel rhan o'r diweddariad nesaf, gan nodi'r gwahaniaeth fydd hyn yn ei wneud.

Cytunodd JF i ddarparu enghreifftiau ymarferol, gan nodi y bydd gwahaniaeth yn cael ei wneud drwy ffocysu trafodaeth ar angen y boblogaeth a sicrhau fod holl bartneriaid allweddol yn cael eu cynnwys. Bydd darn arall o waith allweddol yn cael ei gyflawni gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau anghydraddoldebau iechyd ar lefel clwstwr, gan ddefnyddio data lefel poblogaeth i ddatblygu datrysiadau cadarn i anghydraddoldebau iechyd a fydd yn bwrpasol i ardaloedd lleol.

Archwiliodd TO sut oedd yr asesiad lles, hefyd yn bwysig,

yn plethu i mewn gyda'r asesiad poblogaeth, a sut fyddent yn cael eu hystyried a chynnwys o fewn y model.

Nododd JF nad oedd gwaith y BGC a GCPG wedi ei ystyried yn llawn o fewn gwaith Datblygu Clwstwr Carlam cenedlaethol. Fodd bynnag, yn lleol, bydd gwaith i alinio'r BGC a Datblygu Clwstwr Carlam yn rhan o rôl y rheolwr cynllunio, gyda'r weledigaeth o gael un cynllun lleoedd.

- Gwnaed cais o safbwynt Cymdeithasau Tai, i ddefnyddio eu harbenigedd, a lleisiau tenantiaid yn y grwpiau cynllunio clwstwr, gyda thenantiaid sydd yn aml â'r anghydraddoldebau iechyd ac anghenion iechyd a lles uchaf.
- Aelodaeth GCPG i gael cynrychiolaeth briodol a chydbwysedd teg o bartneriaid rhanbarthol.

Yn ei sylwadau olaf, roedd JF yn cydnabod bod y bensaerniaeth yn ymddangos yn llethol, ond unwaith i'r gwaith darparu ddechrau, bydd y gwaith yn dod yn llai beichus ac yn fwy clir.

Cydnabu aelodau BPRhGC y diweddariad a ddarparwyd ar y Rhaglen Datblygiad Clwstwr Carlam i gynnwys diweddariad ar flaenoriaethau Gweinidogol LIC. Gofynnodd BPRhGC i'r Datblygiad Clwstwr Carlam ddarparu enghreifftiau o sut mae'r PCPG yn bodloni anghenion y boblogaeth yn y diweddariad nesaf.

Cam Gweithredu

- Powerpoint i'w rannu – RW

6 Y Wybodaeth Ddiweddaraf - Cyllid Cyfalaf Rhanbarthol 2022 - 2026

Yn dilyn y cyflwyniad yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Hydref, darparodd CR ddiweddariad ar y ffynonellau cyllido cyfalaf rhanbarthol sef y Gronfa Tai â Gofal (HCF) a Chronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF) a diweddariad ar y broses gwneud penderfyniadau rhanbarthol a strwythur llywodraethu arfaethedig.

Diweddariad - Cyfalaf - Cronfa Tai â Gofal (HCF)

Mae panel LIC bellach wedi cymeradwyo 4 o geisiadau HCF Gogledd Cymru am gyfanswm o £2.5 miliwn a bydd 3 cais arall yn cael eu cyflwyno i'r panel ym mis Tachwedd gyda chyfanswm o £1.1 miliwn.

Mae'r Rheolwr Rhaglen Gyfalaf rhanbarthol wedi cwrdd â phartneriaid i ddeall eu gofynion cyllido a darparodd LIC gyda rhagolygon cadarn o wariant ariannol eleni erbyn 31.10.2022. Mae Gogledd Cymru wedi cadarnhau y bydd £8.8 miliwn yn cael ei ddefnyddio o'r £14.2 miliwn o gyllid HCF a ddyrannwyd ar gyfer 2022 / 2023, gan adael tanwariant o £4.3 miliwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda phartneriaid ar ddatblygiad Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 o gynlluniau cyfalaf, i ddarparu darlun/gwybodaeth tymor hirach cadarn.

Diweddariad - Cyfalaf - Cronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF)

Dyweddodd CR yn dilyn cyfarfod gyda LIC i drafod cynlluniau braenaru IRCF, ac yn arbennig y ceisiadau a gyflwynwyd gan Gogledd Cymru, mae LIC bellach wedi dod i'r casgliad nad oedd y cynllun braenaru yn ddigon cadarn i alluogi llythyr o Ddyfarniad Cyllid i gael ei rannu er mwyn dyfarnu'r grant o dan yr IRCF.

Mae gwaith pellach wedi cael ei gwblhau gyda phartneriaid a LIC i ddatblygu'r ddogfennaeth ategol, gyda 2 gynllun wedi cwblhau ac yn barod i'w cyflwyno i gyfarfod Panel y Grant Cyfalaf ym mis Tachwedd ar gyfer cymeradwyaeth, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau gweddill y cynlluniau.

Cyllid Refeniw IRCF - 2 ffrwd gyllido â chyfanswm o £700,000

Mae cyllid LIC ar gael i gefnogi gweithrediad y cynlluniau Cyfalaf IRCF ar draws Cymru a hefyd ar gyfer datblygiad cynllun cyfalaf 10 mlynedd LIC. Mae'r cynnig cyllido LIC arfaethedig fel a ganlyn:

£200,000 - Cynnig Blwyddyn 1 i gynnwys:

- Cyllido Swydd Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol i reoli'r gronfa Gyfalaf a datblygu Cynllun a Strategaeth Cyfalaf.
- Cyllido Rheolwr Prosiect Rhanbarthol i gynorthwyo partneriaid yn uniongyrchol gyda holl agweddau'r broses ymgeisio cyfalaf.
- Trefnu digwyddiadau hyfforddi ar gyfer cydweithwyr rhanbarthol a phartneriaid er mwyn dod yn gyfarwydd â'r broses llyfr gwyrdd cyffredinol y mae LIC yn ei fabwysiadu mewn perthynas â cheisiadau Cyfalaf.
- Cyllido gwaith ymgynghoriaeth, mewn perthynas â cheisiadau cyfalaf mwy cymhleth, yn ôl y galw.

Sylwch y gall y cynnig cyllido newid ar gyfer blwyddyn 2 a blwyddyn 3. Y cynnig ar gyfer blwyddyn 2 ymlaen yw penodi swyddog ymgysylltu/datblygu i weithio gyda phartneriaid sy'n datblygu canolfannau cymunedau integredig, yn canolbwyntio ar weithio mewn partner a materion rhannu safleoedd h.y. T&C, systemau ac ati, i alluogi cydweithio effeithiol ar un safle.

£500,000 - Mae LIC wedi newid cylch gwaith y cyllid hwn ac wedi dweud y dylid defnyddio cyllid blwyddyn 1 tuag at ddatblygu astudiaethau o ddichonoldeb. Ym mlwyddyn 2 a 3 bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng gwaith dichonoldeb ac ymgynghoriaeth. Unwaith i'r Cynllun Cyfalaf gael ei gadarnhau, bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i newid diwylliant a datblygu partneriaethau, cylch gwaith gwreiddiol LIC ar gyfer y cyllid hwn.

Yn dilyn y camau a gymerwyd yn BPRh mis Hydref mewn perthynas â'r strwythur llywodraethu a'r cynnig i ailenwi'r Panel Cymeradwyo Cyfalaf, y teitl newydd a gynigiwyd heddiw yw Cyfarfod Grŵp Llywio Cyfalaf. Bydd y grŵp hwn yn adolygu ceisiadau cyn cyflwyno i'r BPRh a chyflwyno i LIC.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig yr aelodau ar bob grŵp:

- Bwrdd Rhaglen Gyfalaf - 1 cynrychiolydd o bob ALI, 1 cynrychiolydd BI, unigolyn enwebedig i gynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSL) ac aelodau o'r tîm rhanbarthol
- Grŵp Llywio Cyfalaf - 1 Cynrychiolydd Cyllid, 1 Cynrychiolydd Cyfalaf, Cynrychiolydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Gyfalaf ac aelodau o'r Tim Rhanbarthol, fel bo'n briodol.

Nid yw'n ofyniad bod cynrychiolwyr eisoes yn aelodau o BPRhGC, a gofynnir i bartneriaid enwebu cynrychiolydd priodol sydd â chyfrifoldeb dirprwyol i weithredu ar eu rhan. Os derbynnir nifer o enwebiadau ar gyfer un sedd ar y byrddau uchod, bydd y penderfyniad terfynol gan yr Grŵp Arweinyddiaeth, gyda BPRhGC yn cael eu hysbysu'n ffurfiol o'r aelodaeth derfynol unwaith y caiff ei gadarnhau.

Yn dilyn trafodaeth lawn, roedd y BPRhGC yn cytuno â'r argymhellion canlynol:

- Nodi sefyllfa dwy ffrwd cyllid cyfalaf rhanbarthol newydd.
- Cymeradwyo'r cynnig cyllido i ddefnyddio'r Cyllid Refeniw IRFC ar gyfer cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cymeradwyo aelodaeth y Bwrdd y Gronfa Gyfalaf, strwythur llywodraethu a rhaglen y bwrdd.
- Cymeradwyo enw newydd ar gyfer y Panel Cymeradwyo Cronfa Gyfalaf.

Holodd TO os gallai Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Cyfalaf gael ei gyflwyno i BPRhGC unwaith y caiff ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen Gyfalaf, o ran gwaith ar y strategaeth a gwaith BPRhGC.

Cafwyd dwy funud o dawelwch ar gyfer Diwrnod y Cadoediad.

7 Diweddariad BIPBC

Darparodd NL ddiweddariad BIPBC. Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys:

- Diweddariad corfforaethol:

Mynegwyd diolchiadau i'r Prif Swyddog Gweithredol Jo Whitehead, arweinydd ysbrydoledig ar gyfer BIPBC, gan ddymuno dymuniadau gorau iddi ar ei hymddeoliad. Bydd Gill Harris yn Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro a bydd Nick Lyons yn Ddirprwy Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro o 16.11.22;

- Cymunedau Iechyd Integredig:

Mae Cymunedau Iechyd Integredig y Gorllewin, Canolog a'r Dwyrain bellach yn weithredol, gan ddarparu Gofal Sylfaenol ac Eilradd i un grŵp gweithredol gyda chyfle i gydweithio gyda Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl:

Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin

Libby Ryan-Davies, Cyfarwyddwr Rhanbarth Canolog

David Coyle, Cyfarwyddwr Rhanbarth y Dwyrain Dros Dro

Bydd penodiadau eraill i ddilyn.

- Heriau ariannol mewn perthynas ag ynni;
- Heriau'r Gaeaf - pryderon sylweddol o ran y niferoedd parhaus o Covid a fflw; nid yn unig yr effaith ar y boblogaeth gyffredinol, ond y posibilrwydd o lefelau uchel o absenoldebau staff;
- O ganlyniad i ganllawiau LIC, mae staff iechyd wedi dychwelyd i wisgo masgiau wyneb mewn lleoliadau Bwrdd Iechyd, ac mae monitro agos yn digwydd ar arferion profi a hefyd y posibilrwydd o'r angen i newid rheolau ymweld;
- Y tebygolrwydd o weithredu diwydiannol gan nyrsys a Meddygon Teulu;
- Materion y gaeaf a'r effaith ar welyau wedi'u cynllunio, gofal wedi'i gynllunio ac yr effaith ar gleifion allanol rheolaidd, a llawdriniaethau, canser ac arbenigaeth eraill.

Holodd JW os oedd masgiau yn orfodol mewn lleoliadau cymunedol ALI/PBC, gan fod y canllawiau yn achosi anawsterau a phryderon sylweddol o ran rheoli haint yn ystod y cyfnodau clo blaenorol.

Cadarnhaodd NL fod PBC wedi gweithredu rheol gwisgo masgiau ymhob lleoliad ar gyfer cleifion mewnol ac allanol gan gynnwys gofal sylfaenol. Cytunodd NL i rannu canllawiau LIC ac i drafod y camau i'w cymryd mewn lleoliadau cymunedol a rennir.

Dywedodd NS wrth y BPRh o fod wedi mynychu seremoni Gwobrau Cyflawniad BIPBC ar 21.10.22, lle cafodd dau o Brosiectau Trawsnewid BPRh eu rhoi ar y rhestr fer yn sgil eu cyflawniadau. Ar gyfer y Wobr Partneriaeth - Roedd y Tîm Therapi Aml-Systemig ar y rhestr fer, ac ar gyfer y Wobr Iaith Gymraeg - roedd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS) drwy Friends Resilient

ar y rhestr fer. Roedd yn falch o fod yn bresennol i gynrychioli BPRh a'r Rhaglen Drawsnewid Plant, gyda seremoni wobrwyo gynhwysol, yn dangos ymrwymiad a brwdfrydedd staff.

8 BPRhGC

Canlyniadau/diweddariad Gweithdy

Cyflwynodd CR ddiweddariad ar welliannau BPRhGC a drafodwyd yn y gweithdy ym mis Hydref, ac roedd canlyniadau'r adolwg yn cynnwys:

1. Cyflwyno Cynllun Gwaith i'r Dyfodol BPRhGC - a ddefnyddir fel offeryn cynllunio ar gyfer aelodau BPRhGC er mwyn dylanwadu ar eitemau rhaglen yn y dyfodol. Bydd y Cynllun Gwaith i'r Dyfodol yn dod yn eitem sefydlog ar y rhaglen, gan ddangos gwybodaeth glir - yr awdur, pwnc, diben ac argymhellion, gyda dogfennau cysylltiedig i roi cyfle i aelodau BPRh ddarllen dogfennau ymlaen llaw. Bydd y Cynllun Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei gwblhau ar gyfer y pecyn cyfarfod mis Rhagfyr er mwyn ei drafod ymhellach.
2. Cynigir y bydd un cyfarfod bob chwarter yn gyfarfod wyneb yn wyneb o fis Mawrth 2023. Dylai hyn ddarparu aelodau BPRhGC gyda digon o rybudd i reoli eu dyddiaduron.
3. Mae templed adroddiad eglurhaol safonol wedi cael ei ddatblygu, yn nodi'r wybodaeth a ddarperir ar y Cynllun Gwaith i'r Dyfodol mewn perthynas â'r penderfyniad sydd ei angen gan y BPRh ac ati. Bydd y templed yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl adroddiadau a gaiff eu cyflwyno i BPRhGC. Bydd yr adroddiad yn gryno, un daflen A4, yn nodi'r pwyntiau allweddol, er mwyn annog cyfranogiad gan holl aelodau BPRh. Bydd dolen i fanylion cefndir perthnasol yr adroddiad yn cael ei ddarparu yn y Cynllun Gwaith i'r Dyfodol, a bydd y newid hwn yn rhoi eglurder ar gyfer aelodau tra'n cynorthwyo gyda rheoli cyfarfodydd.
4. Sesiynau Hyfforddi BPRhGC - yn darparu cefndir, pwrpas a disgwyliad ar gyfer aelodau BPRh newydd ac i loywi gwybodaeth aelodau presennol BPRh. Nid yw'r hyfforddiant yn orfodol, a gwahoddir aelodau i fynychu 1 allan o'r 3 dyddiad a ddarperir. Hefyd cynigir fod y gwahoddiadau i'r sesiynau hyfforddi yn cael eu rhannu yn ehangach o fewn sefydliadau partner, gan roi cyfle i gydweithwyr ALI/PBC ddeall BPRhGC yn well.

Ystyried Enw'r Gwasanaeth

Dywedodd CR cyn y gweithdy, trafododd y tîm rhanbarthol i ailenwi'r gwasanaeth. Gan fod y teitl presennol yn rhy hir ac ni ddefnyddir yr enw'n aml - Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru, a chynigodd CR dau ddewis ar gyfer ystyriaeth:

- Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Cynigodd ID hefyd fod enw BPRhGC hefyd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd, fel rhan o'r gwaith hwn, gan nad yw'r teitl BPRhGC yn nodi bod y Bwrdd yn ystyried materion iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd.

Ar y cyfan, roedd aelodau BPRh yn gytûn i gyflwyno'r gwelliannau arfaethedig uchod ac i ystyried ailenwi'r gwasanaeth a'r ddau ddewis a ddarparwyd. Unwaith i enw'r gwasanaeth gael ei gytuno, bydd y porth e-bost rhanbarthol a chyfatebiaeth yn cael ei ddiweddarau, fel bod y tîm rhanbarthol yn cael ei weld fel canolfan cefnogi busnes ar gyfer y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dywedodd CR, yn dilyn y cyfarfod heddiw bydd neges e-bost yn cael ei anfon i aelodau BPRhGC ar gyfer cytundeb o'r dewisiadau a ddarparwyd, trwy bleidlais.

Gweledigaeth / Datganiad Cenhadaeth a Blaenoriaethau Allweddol

Hefyd derbyniwyd negeseuon cryf o'r gwaith grŵp yn ystod y gweithdy, gan gydnabod bod angen cadw pethau'n syml heb ddefnyddio jargon.

Datganiad o Weledigaeth Presennol

Cydweithio i wella lles pobl a chymunedau

Roedd y dewisiadau a ddarparwyd yn y gweithdy yn cynnwys:

1. Cydweithio i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles pobl Gogledd Cymru;
2. Cydweithio ar gyfer pobl Gogledd Cymru i wella gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles;
3. Cydweithio ar gyfer pobl Gogledd Cymru, i ddarparu gofal a chymorth iechyd, cymdeithasol a lles sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt ac yn y lleoliad maent ei angen;
4. Cydweithio i wella gofal a chymorth ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, eu gofalwyr a'u teuluoedd

Dywedodd CR, yn dilyn y cyfarfod heddiw bydd neges e-bost yn cael ei anfon i aelodau BPRhGC i bleidleisio ar y 4 cynnig gweledigaeth uchod.

Cynnig ar gyfer Datganiad Cenhadaeth Drafft:

Fel partneriaid cyfartal, byddwn yn herio'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau trwy ddefnyddio ein hadnoddau cyfunol yn wahanol a thrawsnewid ein gwasanaethau yn fwy effeithlon er mwyn creu amgylchedd lle gall bobl ffynnu a chael eu grymuso i ofalu am eu hiechyd a lles eu hunain.

Byddwn yn galluogi pobl i fod yn iach adref, ac yn eu cymuned, cyhyd â phosibl.

Mae adborth ychwanegol i gefnogi'r weledigaeth a Datganiad Cenhadaeth, a dderbyniwyd o'r gweithdy wedi cael eu rhoi ynghyd a'u nodi o fewn 'Blaenoriaethau Allweddol' ar gyfer BPRhGC. Bydd y Weledigaeth, Datganiad

Cenhadaeth a Blaenoriaethau Allweddol eu rhannu i aelodau BPRh yn dilyn y cyfarfod, i gael mwy o sylwadau a chytundeb.

Roedd yr adborth gan aelodau BPRhGC yn cynnwys:

- Er mwyn sicrhau fod Pobl Ifanc wedi'u hystyried yn llawn, newid yr eirfa 'pobl' i 'bobl o bob oed' o fewn y Datganiad Cenhadaeth.
- Cynnwys y weledigaeth neu'r Datganiad Cenhadaeth ar y daflen adroddiad eglurhaol;
- Cyfeirio ar egwyddorion Nolan o ran egwyddorion gweithredu;

Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith a gwblhawyd gan CR a'r tîm rhanbarthol ar ganlyniadau'r gweithlu. Cytunodd CR i addasu'r ddogfennaeth mewn perthynas â'r sylwadau a dderbyniwyd heddiw a bydd y ddogfen newydd yn cael ei hanfon i bawb ar gyfer sylwadau pellach.

Camau Gweithredu:

- Rhannu templed WP gydag aelodau BPRhGC - RW
- Cynllun Gwaith i'r Dyfodol - rhaglen mis Rhagfyr - RW
- Rhannu dyddiadau i aelodau BPRhGC

9 Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Hydref 2022

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 14.10.2022 yn gywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd.

Materion yn codi:

Cynllun y Gaeaf - Unwaith i wybodaeth gael ei dderbyn gan holl bartneriaid bydd y cynllun gorffenedig yn cael ei rannu i aelodau BPRh, i'w gefnogi yn ffurfio yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Rhagfyr.

Mae'r sefyllfa yn parhau'r un fath, heb unrhyw gyllid ychwanegol gan LIC tuag at Gynllun y Gaeaf. Mae'r tîm rhanbarthol yn gweithio gyda chydweithwyr PBC i gynnwys y gwaith ar 'Gynyddu Capasiti Cymunedol' fel rhan o Gynllun y Gaeaf, a bydd hyn yn darparu golwg ehangach o'r sefyllfa ar draws Gogledd Cymru.

Mae holl gamau gweithredu oedd yn weddill o BPRhGC mis Gorffennaf hefyd wedi'u cwblhau.

Cam Gweithredu

- Cynllun y Gaeaf - BPRhGC Rhagfyr

10 Unrhyw Fater Arall

Awgrymodd MW i Ddatganiad yr Hydref y Llywodraeth a'r effaith posibl ar gyllid yn y dyfodol, gael ei drafod mewn cyfarfod BPRh yn y dyfodol, unwaith y bydd aelodau'r BPRh yn glir ar y goblygiadau, os oes rhai.

11 Er gwybodaeth:

Cafodd cofnodion is-grŵp Plant BPRhGC Hydref eu cynnwys er gwybodaeth.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022